Cyngor Meddygol Cyffredinol

Yr hyn i'w ddisgwyl os bydd eich meddyg yn pryderu am ddiogelwch eich plentyn

Os bydd meddyg yn pryderu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, rhaid iddynt gymryd camau er mwyn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diogelu. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n gallu bod yn brofiad gofidus iawn a llawn straen i deuluoedd, ac yn aml, bydd gan rieni gwestiynau ynghylch yr hyn y bydd eu meddyg yn ei wneud neu'r hyn na fyddant yn ei wneud. Bydd y daflen hon yn helpu i ateb y cwestiynau hynny.

Efallai y bydd gennych gwestiynau eraill na fyddant yn cael eu hateb yma, felly rydym wedi awgrymu ffynonellau cymorth ac arweiniad eraill ar ddiwedd y daflen hon.

Beth fydd y meddyg yn ei wneud os byddant o'r farn bod diogelwch fy mhlentyn mewn perygl?

Bydd y camau y byddant yn eu cymryd yn dibynnu ar y sefyllfa. Pan fo modd, rhaid i'ch meddyg weithio gyda chi er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn cael y gofal a'r cymorth y bydd angen iddynt ei gael.

Os na fydd y meddyg yn siŵr a ddylent gyfleu eu pryderon i asiantaeth amddiffyn plant, byddant yn holi cydweithiwr profiadol (megis meddyg arall neu nyrs) am help a chyngor. Os oes modd, byddant yn gwneud hyn heb ddatgelu'ch manylion chi neu'ch plentyn.

Pan fydd meddyg yn pryderu bod plentyn mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod, neu eu bod yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, rhaid iddynt ddweud wrth yr asiantaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, fel gwasanaethau plant yr awdurdod lleol neu NSPCC.

A fydd y meddyg yn siarad gyda mi cyn iddynt wneud unrhyw beth?

Fel arfer, bydd eich meddyg yn dweud wrthych os byddant yn pryderu am ddiogelwch eich plentyn, a byddant yn sôn wrthych am yr hyn y byddant yn ei wneud er mwyn rhoi sylw i'r pryderon hyn. Yr unig adeg pan na fyddent yn dweud wrthych, yw os byddent o'r farn y byddai gwneud hynny yn cynyddu'r perygl i'ch plentyn.

Dylech gael y cyfle i ofyn cwestiynau a dylai'ch cwestiynau gael eu hateb mewn ffordd agored a gonest. Rhaid i'r meddyg wrando a chadw meddwl agored am achos posibl anaf neu arwydd arall a allai ddynodi camdriniaeth neu esgeulustod.

A fydd y meddyg yn trafod eu pryderon gyda fy mhlentyn?

Dylai'ch meddyg siarad gyda'ch plentyn yn uniongyrchol a gwrando arnynt, gan ystyried eu hoedran a'u haeddfedrwydd. Dylent ystyried safbwyntiau'ch plentyn bob amser pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Mae modd i'ch plentyn siarad gyda'r meddyg heb i chi fod yn bresennol os allai hyn helpu'r plentyn i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt.

A fydd angen i'r meddyg gael fy nghaniatâd i cyn sôn wrth unrhyw un arall am eu pryderon?

Fel arfer, bydd angen i'r meddyg gael caniatâd i rannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch plentyn gyda rhywun y tu allan i'w tîm gofal iechyd. Byddant yn gofyn i chi am y caniatâd hwn oni bai bod rheswm cryf dros beidio gwneud hynny – er enghraifft, oherwydd bod y meddyg o'r farn y byddai gwneud hyn yn cynyddu'r risg i'ch plentyn. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, mae modd i'r meddyg rannu gwybodaeth heb ofyn am eich caniatâd chi yn gyntaf.

Mae modd i'ch plentyn roi eu caniatâd i'r meddyg rannu gwybodaeth amdanynt os byddant yn meddu ar yr aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth i wneud y penderfyniad hwn. Os na, gofynnir i chi roi eich caniatâd chi ac i roi caniatâd ar ran eich plentyn.

Wrth ofyn am ganiatâd, dylai'ch meddyg esbonio pa wybodaeth y maent yn dymuno'i rhannu, pwy y maent yn dymuno rhannu'r wybodaeth gyda nhw a pham, a sut y caiff y wybodaeth ei defnyddio.

Beth os byddaf i neu fy mhlentyn yn gwrthod rhoi ein caniatâd?

Bydd y meddyg yn ystyried y rhesymau dros wrthod rhoi caniatâd. Yn ogystal, bydd y meddyg yn ystyried y niwed posibl y gallai'ch plentyn ei ddioddef trwy beidio rhannu'r wybodaeth.

Os bydd eich meddyg o'r farn bod eich plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, byddant yn rhannu'r wybodaeth gyda rhywun sy'n gyfrifol am ddiogelu plant fel arfer, a byddant yn rhoi esboniad i chi ynghylch eu rheswm dros wneud hynny fel arfer.

A oes yn rhaid i feddygon barchu cyfrinachedd?

Mae gan blant a phobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i gael gofal a chyngor meddygol cyfrinachol. Ond weithiau, bydd yn rhaid i feddygon rannu gwybodaeth gydag eraill er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth neu esgeulustod.

Ble mae modd i mi gael help a chyngor pellach?

Mae'r **Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant** (NSPCC) yn elusen genedlaethol sy'n ymgyrchu ar ran plant a phobl ifanc. Mae gan NSPCC linellau cymorth y mae modd i blant ac oedolion eu ffonio er mwyn cael cyngor a chymorth. Mae modd i blant a phobl ifanc ffonio ChildLine ar 0800 111. Mae modd i oedolion ffonio 0808 800 5000 er mwyn cael help a chyngor.
www.nspcc.org.uk

Mae **Grŵp Hawliau'r Teulu** (FRG) yn cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol yn rhad ac am ddim i deuluoedd y mae eu plant yn cael cyswllt gyda gwasanaethau plant awdurdod lleol. Mae modd i deuluoedd ffonio ei wasanaeth cynghori yn rhad ac am ddim ar 0808 801 0366 neu anfon e-bost at advice@frg.org.uk. Yn ogystal, mae gan FRG amrediad o daflenni cynghori am ddim ar ei wefan.
www.frg.org.uk

Mae **Canolfan Gyfreithiol y Plant Coram** (CCLC) yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae modd i deuluoedd ffonio ei wasanaeth cynghori yn rhad ac am ddim ar 08088 020 008 i gael cyngor cyfreithiol ynghylch cyfraith plant, cyfraith teulu a chyfraith addysg.
www.childrenslegalcentre.com

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn sefydliad annibynnol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim i unrhyw un am unrhyw bwnc. Mae ei wefan yn cynnwys cyngor a gwybodaeth hefyd.

Mae **Family Lives** yn elusen genedlaethol sy'n cynnig help a chymorth am bob agwedd ar fywyd teuluol. Mae ganddi wasanaeth cyfrinachol o'r enw Parentline (0808 800 2222), y mae modd i rieni ei ffonio yn rhad ac am ddim o linellau tir a'r rhan fwyaf o wasanaethau ffôn symudol, er mwyn cael gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ynghylch unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol.
www.familylives.org.uk

Mae **Home-Start UK** yn elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo plant a theuluoedd trwy gyfrwng rhwydwaith o wirfoddolwyr.
www.home-start.org.uk

Mae **Family Action** yn elusen sy'n cynnig cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol i deuluoedd difreintiedig ac y maent ar gyrion cymdeithas.
www.family-action.org.uk

Mae **Sefydliad Victoria Climbié** yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol ac annibynnol yn rhad ac am ddim i blant, pobl ifanc a theuluoedd y maent yn ymwneud gyda gofal cymdeithasol plant, yn enwedig ynghylch agweddau ar ddiwylliant a ffydd.
www.vcf-uk.org

© Cyngor Meddygol Cyffredinol
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750)
Cod: GMC/WEDWCS-W/1114